

Pwyllgor :	Y Pwyllgor Safonau
Dyddiad :	23 Chwefror 2023
Teitl :	Fforwm Cenedlaethol Pwyllgorau Safonau
Awdur :	Hywel Eifion Jones, Is-gadeirydd y Pwyllgor Safonau
Pwrpas :	Er gwybodaeth

Cefndir

Cynhaliwyd y cyfarfod cyntaf ar 27/1/23 ar ffurf Zoom. Roedd Cadeiryddion neu Is-gadeiryddion holl Bwyllgorau Safonau Cymru yn bresennol gyda nifer o Swyddogion Monitro, Llywodraeth Cymru (LIC) a swyddogion Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC). Bydd cofnodion llawn o'r cyfarfod yn dilyn maes o law ond yn gryno roedd yr agenda fel a ganlyn:-

1. Etholwyd Clive Wolfendale yn Gadeirydd (Cadeirydd PS Conwy).
2. Cymeradwywyd y Cylch Gorchwyl a ddisbarthwyd yn flaenorol.
3. Rhoddodd Liza James (LIC) ddiweddariad byr ar adroddiad Penn. Bydd ymgynghoriad 12 wythnos yn cychwyn yn fuan ar yr argymhellion yn yr adroddiad. Y gobaith oedd y byddai pob Pwyllgor Safonau yn cael cyfle i ystyried y rhain a rhoi adborth.
4. Bu cryn drafod ynghylch gweithredu'r ddyletswydd newydd ar arweinwyr grwpiau. Roedd yn ymddangos bod llawer o Bwyllgorau Safonau yn dod o hyd i'w ffordd yn raddol o ran ei gyflwyno a chyfrifoldebau. Gwnaed un awgrym gan Gareth Owens (SM - Sir y Fflint), y dylid gofyn i arweinwyr grŵp gwblhau adroddiad blynyddol ar gyfer trafodaeth unigol gyfrinachol gyda'r Pwyllgor Safonau cyn ei gyhoeddi yn ein hadroddiad blynyddol. Mae templed enghreifftiol ar gael, efallai y gallem ystyried hyn? Yn ogystal, mae CLILC yn ystyried darparu hyfforddiant a datblygiad i arweinwyr grwpiau ar eu dyletswyddau newydd.
5. Y brif eitem oedd cyflwyniad gan Michelle Morris, Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus newydd. Rhoddodd drosolwg byr o'r flwyddyn ddiwethaf, a oedd yn gofnod o gyfeiriadau Cynghorwyr, tua 300 (dim ond 1/3 gan Gynghorau Sir). Roedd tua 240 heb basio y prawf budd cyhoeddus ac yn y pen draw aeth 20 atgyfeiriad at Bwyllgor Safonau neu Banel Dyfarnu Cymru. Eleni, mae lefelau atgyfeirio yn dal yn uchel gyda mwyafrif y cwynion yn cynnwys "diffyg parch at eraill". Hefyd, mae methiant i fynychu hyfforddiant safonau yn nodwedd sy'n codi dro ar ôl tro. Byddant yn parhau i roi adborth rheolaidd i Swyddogion Monitro ar eu hachosion a fydd, gobeithio, yn helpu i nodi materion y gellir mynd i'r afael â nhw'n lleol, efallai'n cynnwys arweinwyr grŵp.
6. UFA - Cododd un PS fater adroddiadau blynyddol Cynghorwyr Sir. Mae'n ymddangos bod eu cynhyrchiad yn dameidiog iawn a theimlent y dylent fod yn orfodol. Bydd hyn yn cael ei

drafod yn fanylach yn y cyfarfod nesaf. Awgrymwyd hefyd y dylai CLILC ystyried y cwestiwn o hyfforddiant i Gadeirydd/Is-gadeirydd y pwyllgor safonau.

7. Cynhelir cyfarfod nesaf y fforwm ymhen chwe mis.

Argymhelliad

Gofynnir i'r Pwyllgor nodi'r wybodaeth